Halen y Ddaear

(gonestrwydd / doethineb)

Teimlai'r Brenin ei fod yn dechrau heneiddio. "Os gwn i ydi fy merched yn fy ngharu?" gofynnodd iddo'i hun. Un diwrnod anfonodd ei weision i gyrchu ei ferched i'r neuadd fawr yn y palas. Eisteddodd yntau ar ei orsedd. "Tyrd â'r ferch hynaf ataf," gorchmynnodd i'w was. Daeth hithau a moesymgrymu o flaen ei thad. Roedd ganddi feddwl mawr o'i thad a gwyddai yn dda beth fyddai'n ei blesio.

"Yn awr, fy merch," meddai'r Brenin, "wyt ti'n fy ngharu â'th holl galon?" Meddyliodd y ferch hynaf cyn ateb. "Rydw i'n dy garu yn fwy na'r holl aur sy'n y byd." "Da iawn ti," meddai'r Brenin.

Yna, galwodd y ferch ganol i ddod i mewn i'w weld. Daeth hithau a moesymgrymodd o flaen ei thad a gofynnodd ef yr un cwestiwn iddi hi. Meddyliodd hi am ychydig cyn ateb, "Rydw i'n dy garu yn fwy na'r holl arian sy'n y byd." Gwyddai fod ei thad yn hoffi'r sglein oedd ar bethau arian. "Da iawn ti," meddai'r Brenin.

Yna anfonodd am ei ferch ieuengaf. Roedd ganddi hithau feddwl y byd o'i thad. Gofynnodd yr un cwestiwn yn union i'r ferch ieuengaf hefyd. Meddyliodd hithau am ychydig cyn ateb ac meddai, "Rydw i'n dy garu yn fwy na'r holl halen sy'n y byd." Edrychodd y Brenin arni'n syn. "Halen! Halen!" meddai'n wyllt. "Mae hyn yn dangos yn glir i mi nad wyt yn fy ngharu. Dos o'm golwg, ferch haerllug," meddai'r Brenin.

Rhedodd hithau allan o'r ystafell dan sgrechian crio. Aeth i lawr y grisiau i'r gegin at y cogyddion. Roedden nhw wrthi'n brysur yn paratoi bwyd ar gyfer y Brenin. Yn sydyn, cafodd syniad. Rhoddodd orchymyn i'r cogyddion beidio â rhoi halen ym mwyd y Brenin. "Peidiwch â rhoi halen yn y cawl, peidiwch â rhoi halen ar y llysiau, peidiwch â rhoi halen yn y menyn na'r pysgod na'r sglodion. Peidiwch â rhoi halen mewn dim.

"Dim halen o gwbl?" gofynnodd un o'r cogyddion.

"Dim halen mewn dim?" gofynnodd y prif gogydd.

Felly dyma'r cogyddion yn mynd ati i baratoi pryd bwyd i'r Brenin. Ond doedd dim halen ar gyfyl y bwydydd. Dyna oedd gorchymyn y dywysoges.

Y noson honno eisteddodd y brenin wrth y bwrdd yn ôl ei arfer. Roedd y bwrdd wedi cael ei arlwyo â'r llestri gorau yn y

palas, a'r cyllyll a'r ffyrc yn sgleinio yng ngolau'r canhwyllau. Amser pryd bwyd oedd yr amser gorau gan y brenin oherwydd roedd yn hoff iawn o'i fwyd. Byddai'n treulio oriau bob dydd yn bwyta. Yna daeth un o'r gweision i mewn i'r ffreutur a rhoi'r cawl o'i flaen. Cawl llysiau oedd ar y fwydlen y noson honno. Byddai'r Brenin wrth ei fodd efo'r cawl llysiau. Ond ar ôl llwyaid neu ddwy gwaeddodd y Brenin dros yr ystafell, "Mae'r cawl yma'n hollol ddiflas!"

Dydw i ddim eisiau cawl diflas fel hyn byth eto!" Yna dyma'r prif gwrs yn cyrraedd – pysgodyn, llysiau a thatws. "Mae hwn yn edrych yn hyfryd ar y plât," meddai'r Brenin, "dim ond gobeithio ei fod yn fwy blasus na'r cawl yna." Ond ar ôl un cegaid dyma'r Brenin yn gweiddi unwaith eto, "Mae hwn eto'n ddiflas. I ffwrdd â fo!" Roedd yr un peth yn wir am y cig a'r llysiau. "Dowch â'r prif gogydd yma'r munud yma," rhuodd y Brenin.

Safodd y prif gogydd o'i flaen. "Pwy ar wyneb y ddaear sydd wedi coginio'r bwyd heno?" gofynnodd y Brenin.

"Wel," meddai'r prif gogydd yn betrus, "eich merch, y dywysoges, ddywedodd nad oeddwn i, na'r un o'r cogyddion eraill, i ddefnyddio halen i flasu'r bwydydd."

Dechreuodd y Brenin feddwl. "Doeddwn i erioed wedi sylweddoli pa mor bwysig ydi halen. Roedd hi, fy merch ieuengaf, yn fy ngharu yn fwy na holl halen y ddaear. Ac mae halen yn bwysicach na'r aur na'r arian."

Adnod: "Chwi yw halen y ddaear." Mathew 5:13

Gweddi: "Gwna fi, O Dduw, yn berson gwerth ei halen ym mywyd y cartref, yr ysgol a'r gymuned." Amen.

Trafod:

- Beth ydi ystyr yr adnod o efengyl Mathew?
- Fedrwch chi ddyfalu pa mor bwysig oedd halen yn yr hen ddyddiau?